



CAPEL SALEM, DOLGELLAU

TAFLEN MIS IONAWR 2023

Rhifyn 245

Annwyl gyfeillion,

Dyma'r tro cyntaf i mi eich cyfarch yn y daflen fisol. Fodd bynnag, cefais y fraint o ysgrifennu defosiwn misol ers mis Hydref 2020 pan oeddem yng nghanol y cyfnod clo oherwydd Pandemig Covid. Yn dilyn fy ymddeoliad swyddogol o'r weinidogaeth Fethodistaidd cefais y fraint o helpu nifer o Eglwysi Presbyteraidd yr ardal sydd heb weinidogion. Ysbrydolodd hyn fi i asesu fy ngweinidogaeth a phenderfynais gan fy mod yn treulio fy holl amser yn gweinidogaethu i'r Presbyteriaid bellach y dylwn ddod yn Bresbyteriad. Felly trosglwyddais yn swyddogol a chefais fy nerbyn yn weinidog yr Eglwys Presbyteraidd yn 2021 a dod yn aelod o gapel Salem. Rwyf yn swyddogol yn weinidog di-dâl rhan-amser yn Salem a Christ Church, Abermaw. Gweinidog Gwirfoddol yw'r term swyddogol. Fy ngobaith yw y byddaf yn gallu helpu Salem fel bugail a phregethwr. Mae Salem yn ffodus i gael tîm o swyddogion cydwybodol a ffyddlon. Rwy'n teimlo'n freintiedig i fod yn rhan o'r tîm hwnnw ac yn gweddïo y bydd fy nghyfraniad o gymorth i Salem. Dechreuais bregethu gyda'r Eglwys Fethodistaidd yn 1973 ac rwy'n synnu i feddwl bod 50 mlynedd wedi hedfan heibio ers hynny.

Cyn i mi ddod yn weinidog roeddwn yn bregethwr lleyg am 12 mlynedd gyda'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghylchdaith Dyffryn Conwy. Pregethais y rhan fwyaf o'r Suliau 2 neu 3 o weithiau. Roedd deunaw o gapeli rhwng fy nghartref yn Hen Golwyn a chyn belled â Chwm Penmachno. Yr oedd pump o weinidogion llawn amser a hefyd nifer o bregethwyr cynorthwyol yr adeg honno. Yn anffodus heddiw dim ond pedair o'r eglwysi hynny sydd ar ôl a dim gweinidog i ofalu amdanynt. Mae hyn yn wir ym mhob rhan o Gymru a thu hwnt. Deuthum i Ddolgellau yn 1988 fel gweinidog i Gylchdaith Glannau Meirion a Dyfi. Yr oedd deg eglwys wedi eu gwasgaru, o Harlech i Aberdyfi, o Ddolgellau i Fachynlleth. Un o'm gorchwylion oedd dod o hyd i bregethwyr i bob un o'r eglwysi bob Sul. Yn ffodus roedd gennym ddau weinidog wedi ymddeol yn Nhywyn oedd yn helpu a hefyd gweinidogion eraill oedd wedi ymddeol a phregethwyr o enwadau eraill. Roedd cyfanswm aelodaeth yr eglwysi yn y gylchdaith dros 500. Erbyn heddiw dim ond tair o'r eglwysi hynny sydd ar agor, dwy yn brwydro i oroesi a'r drydedd wedi dod yn ddwyieithog. Ym 1988 roedd pedwar capel Cymraeg yn Nolgellau. Yr oedd gan bob un gweinidog. Mae Salem a'r Tabernacl wedi cydweithio'n agos yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fy ngobaith yw y bydd hyn yn parhau ac yn raddol byddwn yn dod i addoli gyda'n gilydd bob Sul. Cefais y fraint o fod yn Gadeirydd llawn amser i Synod Cymru o 2001 i 2013. Roeddwn yn gyfrifol am waith a thystiolaeth yr Eglwys Methodistiaidd Cymraeg trwy gydol Cymru a thu hwnt. Treuliyd llawer o amser yn helpu eglwysi i gydweithio ac i uno lle bynnag y bo modd. Y broblem fwyaf oedd yr adeiladau oedd yn rhy fawr a hen a drud i'w cynnal gan gynulleidfaoedd bychan. Roedd llawer wedi colli calon ac yn methu gweld unrhyw ffordd i barhau. Nid oedd eraill am adael eu capel. Roedd rhai yn gweld mai ymuno ag eglwys arall oedd yr unig ddyfodol iddynt. Y peth rhyfeddol yw bod mwyafrif yr aelodau wedi dweud nad yw enwadau o bwys iddyn nhw. Dim ond labeli ydyn nhw sy'n ein gwahanu ni.

Rwyf wedi gorfod gwrando ar ddadleuon o blaid ac yn erbyn cau ac uno capeli. Wedi rhoi arweiniad a chynghor hyd eithaf fy ngallu rwyf bob amser wedi caniatáu i'r aelodau wneud y penderfyniad a ddylid cau capel ai peidio. Fodd bynnag, rwyf bob amser yn atgoffa pobl mai ewyllys Duw yw i ni fod gyda'n gilydd ac nid ar wahân. Pwysleisiodd Iesu hyn yn un o'i weddïau gan ddweud; "Dw i'n gweddïo y byddan nhw i gyd yn un, Dad, yn union fel rwyf ti a fi yn un." (Ioan 17:21.)

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i aelodau sydd wedi bod mewn ysbytai ac wedi cael triniaeth yn ddiweddar. Rwy'n falch o glywed bod Mona Hughes wedi dychwelyd adref ac yn gwella ar ôl cael penglin newydd. Hefyd mae Siân Owen, Yr Wyddgrug yn gwella yn dilyn llawdriniaeth ar ei chlun. Dymunwn wellhad llwyr i'r ddwy ac edrychwn ymlaen at eu gweld yn ôl yn Salem yn fuan. Mae ein meddyliau a'n gweddïau gydag Emrys ac Ann Roberts a'u merch Mari Wyn sydd wedi cael llawdriniaeth ac yn cael cwrs o driniaeth. Anfonwn ein cofion at Mr R.J.Roberts, Bontddu, sydd yn Ysbyty Bronglais yn dilyn cael ei daro'n wael yn ddiweddar. Da oedd deall fod Mrs. Mary Roberts, Bedw Arian, mewn hwyliu da er bod gwendid corfforol yn ei chaethiwo i'w chartref i raddau helaeth y dyddiau hyn. Meddyliwn hefyd am aelodau Salem sydd bellach yn byw yng Nghefnrodyn, sef Mrs Mair Jones a Mrs Eira Williams. Ym mhob gwasanaeth yn Salem rydym yn meddwl ac yn offrymu gweddïau ar ran yr holl aelodau a'u hanwyliaid sy'n sâl. Gwed-dwn ar i'r Meddyg Mawr eu hiachau ac i gynnal y rhai sy'n gofalu amdanynt.

Yn ddiffuant,

Patrick Slattery

OEDFAON MIS IONAWR 2023

Dydd Sul, Ionawr 1af - 10.00 a.m. - Cyfarfod Gweddi dechrau'r Flwyddyn (yn y Ffestri)

Nos Iau, Ionawr 5ed - 7.00p.m. - Cyfarfod Gweddi Undebol yn y Ffestri (**dan nawdd Y Gymdeithas**)

Dydd Sul, Ionawr 8fed - 10.00 a.m. - Ein gweinidog, y Parchedig Patrick Slattery

Dydd Sul, Ionawr 15fed - 10.00 a.m. - Y Parchedig Edwin Hughes, Llanbryn-mair (**Oedfa Zoom**)

Dydd Sul, Ionawr 22ain - 10.00a.m. - Y Parchedig Aneurin Owen, Llansannan

Dydd Sul, Ionawr 29ain 10.00 a.m. - Y Parchedig Eifion Roberts, Aberystwyth

NODYN GAN EIN TRYSORYDD

Bydd y Llyfrau'n cau ar yr 20fed o Ionawr, 2023. Felly, os nad ydych wedi cael cyfle i gyfrannu hyd yma, nid yw'n rhy hwyr. Llauer o ddiolch i chi am eich cyd-weithrediad. Dyma fy rhif ffôn, 423 741, rhag ofn yr hoffech gysylltu ynglŷn â'ch cyfraniadau ar gyfer 2022. *John Cadwaladr*

Myfyrdod Mis Ionawr 2023 gan ein gweinidog, y Parchedig Patrick Slattery.

Cyfarchion Blwyddyn Newydd.

“Ond yr wyf yn ymddiried ynot ti, Arglwydd, ac yn dweud, “Ti yw fy Nuw. Y mae fy amser yn dy law di.” Salm 31:14-15.)

Ar ddechrau blwyddyn newydd, yn fwy na unrhyw adeg arall, yr ydym fwyaf ymwybodol o dreigl amser. Yn wir un o'r pethau cyntaf a wnawn ni, fore'r Calan, yw rhoi enw newydd sbon i'r flwyddyn sydd wedi gwawrio, a'n hatgoffa'n hunain yr un pryd nad ein heiddo ni mohoni i wneud fel y mynnom ni â hi. Ond blwyddyn yr Arglwydd, “Annus Domini”, neu fel y dywedai'r hen bobl, ‘y flwyddyn hon a hon o ras Duw.’

Wrth rifo'r flwyddyn newydd, ‘rydym yn cael ein hatgoffa fod nifer ein blynyddoedd ninnau ynghlwm wrth rif y flwyddyn. Rywbryd yn ystod y flwyddyn hon, os Duw a'i myn, bydd rhaid i bob un ohonom ychwanegu un, ie, yr un arall eto, at nifer ein blynyddoedd ninnau. Ond cofiwch, nid mynd yn hen ond mynd yn hŷn y byddwn ni.

I chi a finnau mae'r blynyddoedd yn hedfan heibio ac yn anffodus da ni'n hedfan gyda'r blynyddoedd. Dyna yn union oedd profiad Eifion Wyn...”**Pam, Arglwydd, y gwnaethost Gwm Pennant mor dlws, a bywyd hen fugail mor fyr?”**

Ond wrth gwyno felly, am freuder a byrhoedledd einioes dyn, dim ond adleisio cwyn y canrifoedd yr oedd Eifion Wyn. Onid oedd Dafydd y Salmydd wedi penderfynu canrifoedd lawer yn ôl, mai rhyw... **“ddeng mlynedd a thrigain yw blynyddoedd ein heinioes, neu efallai bedwar ugain mlynedd ar y gorau? Ond hyd yn oed wedyn y mae eu hyd yn faich a blinder.”** A chasgliad y Salmydd duwiol oedd, **“Ant heibio yn fuan, ac ehedwn ymaith.”**

Ie, mae'r blynyddoedd yn hedfan heibio, sawl gwaith y clywsom ac y dywedasom ni hynny? Ac ychwanegu'n awgrymog, **“A ninnau'n hedfan gyda nhw.”**

Mae'n siŵr gen i fod dechrau'r flwyddyn yn gallu dwyn elfen o dristwch i'n calonnau ni wrth sylweddoli'r dinistr a dirywiad sydd wedi bod, nid yn unig ar fywyd ein heglwysi, ond ar ein bywyd cymdeithasol hefyd. Ond mae'r Beibl am inni droi tristwch yr amgylchiad yn rhywbeth creadigol a chadarnhaol. Mae am inni sylweddoli un gwirionedd mawr a fedr newid ein hagwedd at fywyd. O holl greaduriaid byd, i ddydd yn unig y rhoddwyd yr ymwybyddiaeth o'i feidroldeb ei hun. Ef yw'r unig creadur a wŷr fod treigl amser yn rhywbeth y gall ei ddisgwyl yn ystod ei bererindod ar y ddaear. Dyma pam y mae'r Beibl am inni dderbyn hyn fel rhywbeth cwbl naturiol, gan ddysgu o'r profiad, ac elwa arno. Meddai'r Salmydd, **“Felly dysg ni i gyfrif ein dyddiau inni gael calon ddoeth.”** Dyw'r Beibl ddim am inni eistedd ‘nol, yn esgeulus a derbyn blys amser yn union fel pe bai hynny'n dynged ac yn ffawd inni. Mae'r Beibl yn pwysu arnom i afael mewn amser yn dynn, a gwisgo harnais amdano, er mwyn ei droi o fod yn feistr ac yn ormes arnom, i fod yn was ufudd inni. Doedd Paul fyth yn blino dweud hyn, **“gan brynu'r amser,”** a **“daliwch ar eich cyfle,”** meddai. A hynny er mwyn cyflawni gogoniant Duw. Ac yng ngeiriau un o emynau Charles Wesley,

‘Dymunwn brynu'r amser drud, A byw i ddangos Crist i'r byd

Gan dreulio bywyd dros y llu, Sydd heb adnabod Iesu cu.”

Pa adeg well o'r flwyddyn na'i dechrau i fyfyrto ar y pethau hyn fel y gallwn wrth ystyried amser, ddweud o ddifri gyda'r Salmydd, **“Ond yr wyf yn ymddiried ynot ti, Arglwydd, ac yn dweud, “Ti yw fy Nuw. Y mae fy amser yn dy law di.”** Dyma genadwri fawr y Beibl i ni ar ddechrau blwyddyn newydd sef, bod amser yn werthfawr, ac y dylem fanteisio arno a'i ddefnyddio'n llawn.

Dymunaf flwyddyn newydd dda ac iach i chi, a boed bendith Duw gyda ni drwy gydol y flwyddyn hon. A gadewch inni wneud ein gorau i wasanaethu Ef yn ffyddlon yn y byd ac yn yr eglwys er gogoniant i'w enw.

Gweddi

**Yn dy law y mae f'amserau, ti sy'n trefnu 'nyddiau i gyd,
ti yw lluniwr y cyfnodau, oesoedd a blynyddoedd byd;
rho dy fendith ar y flwyddyn newydd hon.**

Nantlais. Caneuon Ffydd Rhif 71.